



Jayne Bryant, AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mawrth 16, 2018

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Ionawr, ac i chi a'r Pwyllgor, a phawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad, am gymryd rhan yn y gwaith o gynhyrchu'r adroddiad interim hwn.

Fel y gofynnwyd, gweler isod ymateb y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor:

Argymhellion y Pwyllgor Safonau:

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda grŵp o Aelodau'r Cynulliad i ddatblygu cynllun peilot o ddatgelu cyfarfodydd ACau â lobïwyr a grwpiau diddordeb ar sail wirfoddol gan gynnal gwerthusiad yn 2020.

Derbyn. Er mwyn cefnogi dyhead y Pwyllgor Safonau i gynyddu tryloywder a rhoi gwell dealltwriaeth o waith Aelod etholedig, bydd y Comisiwn yn gweithio gyda'r pedwar aelod o'r Pwyllgor Safonau, fel y grŵp peilot o Aelodau i hwyluso'r treial o'r broses wirfoddol o gyhoeddi manylion cyfarfodydd Aelodau gyda lobïwyr a grwpiau buddiant.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn sicrhau bod pob pàs diogelwch staff y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei ddiactifadu ar y diwrnod y mae staff yn gadael cyflogaeth. Byddai hyn yn sicrhau nad oes gan unrhyw lobïwr bès y Cynulliad Cenedlaethol, gan ei gwneud yn haws i gynnal enw da'r Cynulliad fel sefydliad sy'n caniatáu mynediad teg a chyfartal i bawb.

Derbyn mewn egwyddor. Nid oes angen newid. Yr arfer eisoes yw diactifadu pasys staff ac Aelodau yn brydlon, cyn gynted ag y byddant yn gadael cyflogaeth gyda'r Comisiwn neu Aelod Cynulliad, neu'n rhoi'r gorau i'w rôl fel Aelod. Mae'r arfer hwn yn bwysig iawn er mwyn diogelu uniondeb yr ystâd.



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylid cynnwys gwybodaeth am bob digwyddiad a noddir gan Aelodau'r Cynulliad a gynhelir ar ystâd y Cynulliad, ac nid dim ond y digwyddiadau mewn manau cyhoeddus yn y calendr. Teimlwn y bydd hyn yn sicrhau bod y Cynulliad yn dangos ei ymrwymiad i'r tryloywder eithaf, a galluogi'r cyhoedd i weld y digwyddiadau a gynhelir ar yr ystâd.

Derbyn. Bwriad y calendr y mae'r Cynulliad yn ei gyhoeddi yw bod yn ffynhonnell ddefnyddiol i unrhyw un sy'n defnyddio'r wefan ddarganfod pa weithgaredd sy'n cael ei gynnal.

Bydd y system o gyhoeddi gwybodaeth yn y calendr am bob digwyddiad a noddir gan Aelod a gynhelir ym manau cyhoeddus Ystâd y Cynulliad (yr Oriel a'r Neuadd yn y Senedd a'r Pierhead) yn cael ei hymestyn ar ôl toriad y Pasg i gynnwys archebion newydd ar gyfer gweithgaredd a noddir gan Aelod sy'n cynnwys gwesteion allanol mewn lleoliadau eraill y gellir eu harchebu ar yr ystâd a chyfarfodydd grwpiau trawsbleidiol.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod gwaith ymchwil yn cael ei gomisiynu gan Gomisiwn y Cynulliad, gan fapio llwybrau dylanwad i greu sylfaen dystiolaeth gytbwys ac ystyried dulliau amgen, a allai fod yn fwy effeithiol, i gynyddu tryloywder, ar wahân i gofrestr statudol.

Mae pob pwyllgor yn rhydd i geisio'r wybodaeth y mae'n teimlo sy'n angenrheidiol i ymgymryd â'i ymchwiliadau. Mater i'r Pwyllgor yw gwneud hyn. Mae'r Comisiwn yn darparu cyllideb i alluogi pwyllgorau i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, gan staff y Comisiwn a chael mynediad at arbenigedd allanol os oes angen hynny.

Yn gywir,

Elin Jones AC
Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403